

**CYNLLUN IAITH CYNGOR GWYNEDD**  
**ADRODDIAD MONITRO 2011- 2012**

**1. Rhagair**

Dyma'r Adroddiad Monitro Iaith gyntaf i Gyngor Gwynedd ei gyflwyno i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg. Bu newidiadau arwyddocaol a phellgyrhaeddol i fframwaith statudol yr iaith Gymraeg dros y misoedd diwethaf, a chroesawn y pwyslais cynyddol ar godi safonau a sicrhau cysondeb i ddarparu a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws Gymru gyfan.

Edrychwn ymlaen at yr her o fynd i'r afael a'r Safonau Iaith statudol arfaethedig, ac at geisio adnabod drwyddynt ffyrdd o wella ein darpariaeth. Yn y cyfamser wrth gwrs, ein blaenoriaeth yw cydymffurfio a gofynion ein Cynllun Iaith, ac yn unol â'r cyfarwyddid, cyflwynwn yr Adroddiad isod, gan ddilyn y patrwm a sefydlwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

## 2. Cydymffurfio a'r Cynllun Iaith Gymraeg (yn erbyn targedau 2011-12)

D.S. Ni sonnir am amcanion sydd eisoes wedi'u cwblhau ac a nodir mewn Adroddiadau Monitro blaenorol

### A. Polisiâu a Mentrau Newydd

AMCAN	GWEITHRED	DIWEDDARIAD
A.1. Byddwn yn prif-f frydio'r Gymraeg i bolisiau, mentrau a phenderfyniadau allweddol y Cyngor drwy gryfhau a chadarnhau ein trefniadau prif-f frydio themau llorweddol	* Sicrhau fod Aelodau'n rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith gaiff polisiâu a phenderfyniadau ar yr iaith Gymraeg	Yr Amcan gwreiddiol wedi'i chyrraedd, ond bydd angen ail-feddwl ynglŷn â'r ffordd orau i gyfarch hyn wrth drosglwyddo i system Gabinet newydd

### B. Cyflwyno Gwasanaethau

AMCAN	GWEITHRED	DIWEDDARIAD
B.1. Bydd y Cyngor yn sicrhau ein bod yn cyfleu a monitro gofynion y Cynllun Iaith fel rhan annatod o gyflwyno gwasananethau gan eraill a bod y gofynion yma'n amod ar gyfer cytundeb, grant neu nawdd a ddyrennir gan y Cyngor	<p>* Yn unol â DIG 1, adrodd ar y nifer a % o gyrff 3ydd parti a gafodd eu monitro ar sail cydymffurfiaeth ieithyddol, gan ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Contractau Gofal Cymdeithasol</li> <li>- Contractau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc</li> <li>- Contractau ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol</li> </ul> <p>* Adolygu ein canllawiau ieithyddol i staff ar osod cytundebau yn dilyn cyhoeddi Canllaw Caffael Bwrdd yr Iaith</p> <p>* Cynnal hyfforddiant ar ofynion ieithyddol mewn perthynas â chaffael a gosod cytundebau ar gyfer staff perthnasol yn seiliedig ar ganllawiau Caffael Bwrdd yr Iaith (llithriad o Gynllun Interim 2009 yn sgil datblygu'r Canllaw)</p>	<p>Gweler 4A) isod</p> <p>Canllawiau wedi'u hadolygu a chopïau o Ganllaw'r Bwrdd ar osod contractau wedi'i rhannu gyda holl Aadrannau'r Cyngor</p> <p>Swyddogion allweddol o'r Cyngor wedi mynychu hyfforddiant safonol y Bwrdd ar osod cytundebau (dwy sesiwn ar ddiwedd 2011 a dechrau 2012)</p>

<b>AMCAN</b>	<b>GWEITHRED</b>	<b>DIWEDDARIAD</b>
	* Cytuno ar drefn monitro ac adrodd ar draws y Cyngor er mwyn cynyddu'r ystod o gytundebau a adroddir o fewn ein Adroddiad Blynyddol	Yr amserlen wedi llithro: Ond ceir fwy o fanylion eleni ar gontractau Gofal Cymdeithasol (gweler 4A)
B.2. Sicrhau fod cytundebau cyddarparu'n arwain at wasanaethau sy'n cydfynd a gofynion y Cynllun Iaith	* Sicrhau fod Cynlluniau Adran 33 yn rhoi sylw dyledus i ofynion ieithyddol a bod yr iaith Gymraeg yn cael sylw o fewn yr adolygiadau blynyddol	Cyd-weithio ar hyn o bryd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ofynion ieithyddol Adran 33 Gwasanaethau Arbenigol Plant
B.3. Sicrhau fod Gwasanaethau Ieuenctid yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg	* Yn unol â gofynion Bwrdd yr Iaith Gymraeg, adrodd yn flynyddol ar sut mae'r Gwasanaeth yn darparu a hyrwyddo gwasanaethau a gweithgareddau Gymraeg	Gweler 3A) isod

### **C. Delio Gyda'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg a Safonau Ansawdd**

<b>AMCAN</b>	<b>GWEITHRED</b>	<b>DIWEDDARIAD</b>
C.1. Bydd y Cyngor yn sicrhau a cheisio gwella yr amrediad o wasananethau o safon drwy gyfrwng y Gymraeg	* Monitro cydymffurfiaeth drwy adroddiadau'r Penaethiaid Gwasanaeth a chwynion iaith * Cynnal hapwiriad annibynnol o gydymffurfiaeth y Cyngor a'r Cynllun Iaith	Gweler 3C) isod  I'w gynnal yn ystod 2012
C.2. Sicrhau (yn unol â DIG2) fod staff y brif dderbynfa, canolfan gyswllt neu siop-un-stop yn gallu cynnig gwasananeth dwyieithog	* Parhau i sicrhau fod pob swydd yn ein prif dderbynfeydd a Galw Gwynedd wedi'u dynodi'n "Gymraeg hanfodol" ac ein bod yn penodi staff dwyieithog	Gweler 3B) isod

<b>AMCAN</b>	<b>GWEITHRED</b>	<b>DIWEDDARIAD</b>
C.3. Gwarantu safon cyfieithu ac iaith y Cyngor	* Monitro ansawdd iaith unrhyw ddeunydd ysgrifenedig cyhoeddus sy'n cael ei gynhyrchu gan staff	Gweler Cwynion 3C) isod
C.4. Hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy Dechnoleg Gwybodaeth	Y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth i gofnodi darpariaeth iaith Gymraeg fel dewis diofyn lle bo'n bosib ar bob cymhwysydd Windows sy'n bodoli'n ddwyieithog	Disgwyl penderfyniad gan y Grŵp Llywodraethu TG ym mis Medi
C.5. Sicrhau a hyrwyddo dewis iaith mewn cyfarfodydd	* Monitro gweithredu cyfarfodydd cyhoeddus	Gweler Cwynion 3C) isod

### **Ch. Wyneb Cyhoeddus y Cyngor**

<b>AMCAN</b>	<b>GWEITHRED</b>	<b>DIWEDDARIAD</b>
CH.1. Cydymffurfio a'r gofyn i gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol sy'n gwbl ddwyieithog ac sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg	* Sicrhau fod holl ddeunyddiau cyhoeddus y Cyngor yn ddwyieithog (arwyddion, papurau pennawd, ffurflenni, deunyddiau arddangos ayb.)	Gweler Cwynion 3C) isod
CH.2. Sicrhau hyd eithaf ein gallu bod arwyddion ac enwau lleoedd o fewn y Sir yn adlewyrchu Cymreictod, hanes a diwylliant yr ardal	* Sicrhau fod holl arwyddion cyfeirio ac arwyddion ffordd yn cydymffurfio a gofynion ieithyddol y Cyngor *Monitro a sicrhau cydymffurfiaeth a'r gofyn am enwau Cymraeg ar ddatblygiadau newydd * Sicrhau fod llythyr yn cael ei anfon at y sawl sy'n gwneud cais i newid enw tŷ o'r Gymraeg yn gofyn iddynt ystyried eu cais yng nghyd-destun natur ieithyddol yr ardal	Gweler Cwynion 3C) isod  Cydymffurfio a'r gofyn  Y llythyr wedi'i ddiwygio yng ngoleuni newidiadau i Linell Gymorth y Gymraeg

## D. Gweithredu ac Arolygu'r Cynllun

AMCAN	GWEITHRED	DIWEDDARIAD
<p>D.1. Datblygu Strategaeth Sgiliau ieithyddol i staff yn seiliedig ar ganllawiau Recriwtio a'r Iaith Gymraeg Bwrdd yr Iaith</p>	<p>* Gwella ein trefniadau monitro sgiliau ieithyddol staff yn unol â DIG 5 (fesul adran, gradd a gweithle) i bwrpas mapio capasiti ac adnabod y bwlch darparu</p> <p>* Llunio Cynllun Gweithredu Strategaeth Sgiliau ieithyddol</p> <p>* Adolygu ein trefniadau parthed pennu sgiliau iaith swyddi</p> <p>* Sicrhau lefel iaith addas ar gyfer bob swydd yn unol â'r trefniadau a nodir uchod</p> <p>* Asesu lefel sgiliau ieithyddol pob aelod o staff mewn cymhariaeth a lefel iaith y swydd</p> <p>* Darparu hyfforddiant addas er mwyn datrys y gwahaniaethau rhwng lefel iaith swyddi a lefel sgiliau ieithyddol eu deiliaid</p>	<p>Problemau'n parhau gyda chael system gadarn i fonitro (gweler 5B) isod)</p> <p>Cynllun gweithredu wedi'i dderbyn gan yr Is-Bwyllgor Iaith 11/10/11</p> <p>Matrics lefel sgiliau iaith wedi'i datblygu: Angen penderfynu ar sut i ymgynghori ar hon yn dilyn newidiadau i'r strwythur democrataidd</p>
<p>D.2. Darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff (DIG 4a)</p>	<p>Y Swyddog Datblygu Gweithlu yn trefnu a darparu gwersi gan adrodd yn flynyddol</p>	<p>Gweler adroddiad y Swyddog Datblygu Gweithlu 5A) isod</p>
<p>D.3. Sicrhau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff (DIG4b)</p>	<p>* Hyrwyddo'r modiwlau e-ddysgu ar <i>Gydraddoldeb Iaith</i> a'r modiwl <i>Parch</i> (Eisoes fe'u clustnodwyd modiwlau cydraddoldeb ac iaith yn "hanfodol" i bob aelod o staff dan y Matrics Hyfforddiant Corfforaethol</p>	<p>Ar hyn o bryd, mae'r modiwlau'n cael eu hadolygu, ond bydd yr un gofyn "hanfodol" yn parhau</p>

AMCAN	GWEITHRED	DIWEDDARIAD
D.4. Sicrhau fod staff yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith ac yn hyrwyddo'r iaith gyda hyder	* Gosod y Cynllun Iaith ar system CETIS (rhaglen gyfrifiadurol i staff ddarllen a derbyn polisïau)	Mae Tîm Rheoli Adnoddau Dynol yn y broses o adolygu defnydd o'r system, ac mae hyn wedi arwain at lithriad yn yr amserlen
D.5. Sicrhau fod cwynion yn erbyn y Cynllun Iaith yn cael eu hymdrin â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor	* Gwella'r trosolwg o gwynion drwy bwysu ar i Benaethiaid adrodd pob cwyn a'r ymateb i'w monitro gan y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith	Gweler 3C) isod

### 3) Ansawdd Gwasanaethau Rheng Flaen

#### A) Darpariaeth Gwasanaeth Ieuentid Cyfrwng Cymraeg

##### i) Gweithgareddau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg gyda phobl ifanc

Fel rhan o raglen waith Hunanlaith, rhoddwyd sylw penodol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy'r Gwasanaeth Ieuentid. Roedd y rhaglen ar gyfer 2011-12 yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes ac a adroddwyd yn Adroddiad Monitro 2011 ( h.y. arolwg o ba iaith a ddefnyddir yn y clybiau, sgiliau ieithyddol staff a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff).

Lluniwyd cyfres o 5 o weithgareddau ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg gyda phobl ifanc i ddarparwyr gwasanaethau ieuentid:

**- Cwis** Mae'r cwis yn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc mai siarad iaith leiafrifol a bod yn ddwyieithog neu amlieithog yw'r norm ledled y byd. Mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o ddemograffig ieithyddol Cymru, Gwynedd a'r ward etholiadol leol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth mai iaith a siaradir gan fwyaf gan bobl ifanc yw'r Gymraeg, gan geisio chwalu rhai mythau

**- Llinell Amser** Gweithgaredd ymarferol yw hwn sy'n gofyn i'r bobl ifanc osod cardiau yn nodi rhai o'r prif ddigwyddiadau yn hanes y Gymraeg, a chofnod o'r ganran o siaradwyr Cymraeg gyferbyn â'r dyddiadau priodol. Mae'r gweithgaredd yn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r digwyddiadau yma a'u heffaith pellgyrhaeddol ar feddylfryd siaradwyr Cymraeg dros y canrifoedd.

- **Llunio CV** Gweithgaredd ymarferol yw hwn eto lle bo'r bobl ifanc yn creu CV er mwyn ymgeisio am swydd ddychmygol tywysog / tywysoges Gwynedd. Wrth gasglu gwahanol gardiau sgil i lunio CV bersonol dylai'r bobl ifanc sylweddoli fod gallu cyfathrebu yn y Gymraeg neu fod yn ddwyieithog yn sgil bwysig ar gyfer cyflogaeth. Mae yn codi eu hymwybyddiaeth fod nifer fawr o gyflogwyr yn chwilio am weithwyr sydd â sgiliau dwyieithog.
- **Cwis Cerddorol** Cwis yw hwn lle bo'n rhaid i bobl ifanc benderfynu ai cân Gymraeg neu gân Saesneg yw'r gân a chwaraeir oddi ar CD yn seiliedig ar yr ychydig eiliadau o gyflwyniad offerynnol ar ddechrau'r gân yn unig. Mae'n ffordd o wneud i bobl ifanc sylweddoli y gall cerddoriaeth fod yn dda ac effeithiol waeth ym mha iaith bynnag y mae'r geiriau'n cael eu canu, gan geisio chwalu disgwyliadau rhai pobl ifanc fod cerddoriaeth Gymraeg mewn rhyw ffordd yn israddol i gerddoriaeth Saesneg.
- **Chwiliair** Mae'r chwiliair yn cynnwys termau a geiriau sydd wedi eu cynnwys ym mhob un o'r gweithgareddau eraill, ac yn cynnig cyfle i bobl ifanc gael trafod rhai ohonyn nhw eto mewn rhagor o fanylder.

Cyflwynwyd y Pecyn Gweithgareddau i Arweinyddion Clybiau Ieuencid , Arweinyddion Ardal ac Uwch Swyddogion Ieuencid y Sir. Roedd y cyflwyniadau'n cynnwys hyfforddiant ar ddefnyddio'r gweithgareddau. Dosbarthwyd yn ogystal i Glybiau Ffermwyr Ifanc Eryri a Meirionnydd a'r Urdd yn rhanbarthau Eryri a Meirionnydd.

Pa dderbyniwyd adroddiad ar ddefnydd o'r adnoddau fel rhan o ddarpariaeth Gwasanaethau Ieuencid y Sir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cafwyd cadarnhad i'r gweithgareddau gael eu defnyddio mewn 16 clwb ym Meirionnydd, 7 clwb yng Ngogledd Arfon, 8 yn Nwyfor a De Arfon, yn ystod 11 ymweliad y Bws Ieuencid a chlybiau Gwynedd, yn ystod y cwrs aelodau hwn ac fel rhan o gwis y 3 rhanbarth a'r cwis sirol. Gyda phob un o'r sesiynau yma, dilynwyd proses arfarnu safonol y Gwasanaeth Ieuencid.

Dengys yr adborth mai hoff weithgareddau'r bobl ifanc oedd y cwis a'r llinell amser, a bod y gweithgaredd Llunio CV wedi gwneud iddynt ystyried eu dyfodol gyrfaol o fewn y Sir gan adnabod manteision y Gymraeg. Roedd y bobl ifanc yn canmol y gweithgareddau am roi cyfle iddynt drafod pwysigrwydd a hanes yr iaith a thrafod eu hagweddau tuag atynt.

Roedd yr Uwch Weithwyr Ieuencid yn adrodd iddynt weld newid yn agweddau'r bobl ifanc ers cyflwyno'r adnoddau ac yn cadarnhau fod y gweithgareddau wedi addysgu yr aelodau o bwysigrwydd defnyddio a hyrwyddo'r iaith yn eu cymunedau. Roeddynt hefyd wedi synnu cymaint oedd ymwybyddiaeth eu haelodau o hanes Cymru a'r Gymraeg.

ii) Brwydr y Bandiau

Roedd rhaglen waith gwreiddiol Hunanlaith yn cynnwys cynnal gornest sirol Brwydr y Bandiau yng Ngwynedd, ond gan mai ond un band o'r Sir gofrestrodd ar gyfer y gystadleuaeth, cytunodd y BBC i'r band yna fynd ymlaen yn syth i'r ornest ranbarthol.

Yn dilyn hyn, ac mewn cytundeb gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Gwasanaeth Ieuencid, penderfynwyd cynnal gweithgareddau cerddorol eraill er mwyn cyflawni'r targed mewn dull gwahanol. Ac felly, mewn cydweithrediad a Ciwddod a Cherdd Gymunedol Cymru, trefnwyd i gynnal sawl gweithdy roc yng nghlybiau Dyffryn Nantlle, Nefyn, Bethesda, Caernarfon ac Aberdyfi yn ystod mis Mawrth 2012.

B) Derbynfeydd

DIG 2 Nifer a % swyddi'r brif dderbynfa, canolfan gyswllt neu siop-un-stop a ddynodwyd yn rhai "Cymraeg hanfodol" ac a lenwyd gan staff dwyieithog:

Lleolir Prif Dderbynfeydd y Cyngor yn y Pencadlys, Penrallt (Caernarfon), Neuadd y Dref (Bangor), Siop Gwynedd, Ffordd y Cob (Pwllheli), Penarlâg (Dolgellau)

<b>Nifer Staff</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg (nifer a %)</b>	<b>Cymraeg Hanfodol (nifer a %)</b>	<b>Targed 2013 %</b>
8	8 (100%)	8 (100%)	100%

Y Ganolfan Gyswllt ym Mhenrhyndeudraeth sy'n ymdrin ag ymholiadau ffon, a nodir isod y manylion ynglŷn â sgiliau ieithyddol y staff:

Canolfan Gyswllt Penrhyndeudraeth

<b>Nifer Staff</b>	<b>Siaradwyr Cymraeg (nifer a %)</b>	<b>Cymraeg Hanfodol (nifer a %)</b>	<b>Targed 2010 %</b>
34	34 (100%)	34 (100%)	100%

Fel rhan o'r Strategaeth Gofal Cwsmer, bydd y Cyngor yn ystyried ymestyn y drefn monitro cwynion drwy Galw Gwynedd, Siop-Un-Stop a Siopau Gwynedd. Byddai'r drefn yma'n cynnwys categori ar gyfer cofnodi unrhyw gwynion ieithyddol, ac felly'n debygol o arwain at well darlun o'n ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.



### C) Canolfannau Hamdden: Cynllun Pencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden y Fro Gymraeg

Yn ein Hadroddiad Monitro Iaith 2011, cyfeiriwyd at waith a gyflawnwyd gyda Chanolfannau'r Sir ar godi ymwybyddiaeth iaith, monitro bodlonrwydd cwsmer a gallu a hyder y staff i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol agweddau o'u gwaith.

Yn arwain o'r gwaith yma, ym mis Mai 2011, cyflwynwyd cais ariannol i Gynllun Gweithleoedd Dwyieithog, Bwrdd yr Iaith Gymraeg i sefydlu Pencampwyr Iaith yng Nghanolfannau Hamdden y Fro Gymraeg. Penderfynwyd cydweithio gyda siroedd Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin ar y cais hwn, gyda Chyngor Gwynedd fel y corff arweiniol. Ym mis Gorffennaf 2011, fe'n hysbyswyd fod ein cais i Gynllun Gweithleoedd Dwyieithog, Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi bod yn llwyddiannus

Wrth lunio'r cais, adnabuwyd 10 o amcanion ar gyfer y cynllun Pencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden y Fro Gymraeg. Roedd yr amcanion hyn yn ymwneud â datblygu swyddogaeth Pencampwyr Iaith mewn Canolfannau Hamdden er mwyn:

- Creu ethos dwyieithog yn y gweithle
- Bod yn arweinyddion ac arwain trwy esiampl i godi proffil yr iaith  
Trwy ddefnyddio'r iaith gymaint â phosibl yn y gweithle, mewn cyfarfodydd, a gyda dysgwyr
- bod yn hyddysg am ofynion gweithredol y Cynllun Iaith a'r hyn sydd yn ofynnol gan staff o ran cydymffurfio â'r cynllun
- briffio staff ar faterion yn ymwneud â chyflwyno gwasanaeth dwyieithog
- cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth iaith i staff fel bo'r gofyn
- herio agweddau negyddol
- cyfleu gwybodaeth i'r Gwasanaeth/Swyddog perthnasol ynglŷn â materion yn ymwneud â'r Gymraeg h.y. diffyg cydymffurfiaeth â pholisïau
- hyrwyddo defnydd o adnoddau Cymraeg e.e. Cysgliad
- paru dysgwyr gyda siaradwyr Cymraeg
- mynychu cyfarfodydd mewnol parthed yr iaith Gymraeg

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, roedd 3 elfen wahanol i'r cais, sef:

- Hyfforddiant
- Llawlyfr Pencampwyr Iaith
- Seminar

i) Hyfforddiant

Cytunwyd ar dridiau o hyfforddiant gogyfer â sefydlu'r rôl Pencampwyr Iaith yng Nghanolfannau Hamdden y Fro Gymraeg. Roedd y sesiynau hyfforddiant hyn yn cynnwys:

- Ymwybyddiaeth iaith
- Cyflwyniad i'r Cynllun Iaith
- Rôl Pencampwyr Iaith
- Astudiaethau achos
- Cwynion
- Arfer da
- 5 ymrwymiad iaith
- Paru Pencampwyr Iaith

Cynhaliwyd y sesiynau hyfforddi rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2011.

ii) Llawlyfr Pencampwyr Iaith

Cytunwyd hefyd i lunio Llawlyfr i'r Pencampwyr Iaith fyddai'n gyfrwng cefnogaeth ac arweiniad pellach iddynt, wrth gychwyn ar eu gwaith o weithredu'r rôl yn ôl yn y gweithle.

iii) Seminar

Cytunwyd i gynnal seminar er mwyn rhannu arfer da, rhoi llwyfan i'r pencampwyr rannu eu cynlluniau gwaith a'u profiadau o gychwyn, gweithredu'r rôl yn y Canolfannau Hamdden, ynghyd â bod yn gyfle i lansio'r Llawlyfr Pencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden. Cynhaliwyd y seminar yn Nhŷ Siamas, Dolgellau ar 3 Chwefror 2012.

iv) Camau Nesaf i Wynedd

Yn unol â'r gofyn, cynhyrchwyd adroddiad terfynol ar y Cynllun Pencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden y Fro Gymraeg ac fe'i anfonwyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion llawn am y Cynllun, gan gynnwys adborth ar yr hyfforddiant ac amlinelliad o holl ymrwymadau'r Pencampwyr Iaith

Teimlwn yn gryf, fodd bynnag mai ond cychwyn mai'r gwaith, a dros y flwyddyn a blynyddoedd i ddod, byddwn yn parhau i fonitro a datblygu gwaith y Cynllun yma:

Mae trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal rhwng Swyddogion Iaith a Phenaethiaid Adran Darparu a Hamdden, Cyngor Gwynedd er mwyn cytuno ar y camau nesaf i'r Pencampwyr Iaith a'r Canolfannau Hamdden o safbwynt cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Yn amlwg, bydd angen monitro i sicrhau fod 5 ymrwymiad pob Pencampwr Iaith wedi eu gwireddu yn unol â'r amserlen.

Trafodwyd hefyd yr angen i gynnwys ymrwymiad fel rhan o Gynllun Busnes yr Adran Darparu a Hamdden, ac mae trafodaethau pellach i'w cynnal ynglŷn ag union eiriad yr ymrwymiad hwn.

Cytunwyd hefyd y byddai'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith a'r Swyddog Hyrwyddo Iaith, ynghyd â Phennaeth yr Uned Gyfieithu yn mynychu cyfarfodydd yr Adran er mwyn hysbysu'r Pencampwyr Iaith o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y Canolfannau Hamdden.

Mae'r Is-Bwyllgor Iaith wedi cymeradwyo'r Cynllun a'r adroddiad terfynol, ac wedi gofyn am adroddiad pellach ar y gwaith ym mis Mawrth 2013.

### C) Cwynion yn Erbyn y Cynllun Iaith

Daw'r cwynion isod gan aelodau'r cyhoedd, Aelodau etholedig y Cyngor, aelodau staff ac adroddiadau monitro a dderbyniwyd gan Benaethiaid Gwasanaeth. Maent yn cynnwys:

- Cwynion yn erbyn y Cyngor ( gan gynnwys cwynion yn erbyn y sawl sy'n darparu ar ein rhan neu'n derbyn nawdd)
- Cwynion yn erbyn cyrff eraill

### **CWYNION YN YMWNEUD A'R CYNGOR (GAN GYNNWYS TREFNIADAU PARTNERIAETH A 3YDD PARTI)**

<b>DYDDIAD</b>	<b>CWYN</b>	<b>YMATEB.</b>
<b>Ebrill 2011</b>	Cwyn gan Aelod ynglŷn â gwallau iaith mewn dogfen ganllaw ar beth fyddai'n ddisgwyliedig gan staff pe bae tan yn cynnau yn y gweithle	Cyfeirio'r mater i'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol: Y Gwasanaeth yn ymddiheuro ac yn cadarnhau fod y ddogfen eisoes wedi'i gwrio
<b>Ebrill 2011</b>	Cwynion ynglŷn â holiadur uniaith Saesneg (Hwb Bwyd Gwynedd) a anfonwyd ar ran y Cyngor gan y cwmni Innovation Partnership	Y Gwasanaeth Economi ac Adfywio yn cysylltu â'r cwmni, gan nodi fod hyn yn groes a'u cytundeb, ac yn mynnu fod fersiynau Cymraeg yn cael eu hanfon.

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
<b>Mai 2011</b>	Cwyn gan aelod o staff ynglŷn â phoster Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol uniaith Saesneg yn cael ei arddangos ym Mhencadlys y Cyngor	Y Poster wedi'i gynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac wedi'u harddangos ochr-yn-ochr, ond y Gymraeg wedi mynd ar goll. Mae'r Gwasanaeth bellach wedi sicrhau fod y posteri sy'n cael eu harddangos yn cydymffurfio a'r gofynion.
<b>Mai 2011</b>	Cwyn gan Aelod ynglŷn â thocynnau a deunydd cyhoeddusrwydd uniaith Saesneg ar gyfer perfformiad a drefnwyd drwy Pontio (sy'n derbyn nawdd gan y Cyngor ar gyfer prosiectau celfyddydol)	Yr Aelod yn cysylltu â'r Brifysgol: Hefyd adnabod angen i roi ystyriaeth lawn i faterion yn ymwneud a'r iaith Gymraeg fel rhan o'r adolygiad o grantiau strategol celfyddydau Gwynedd
<b>Mai 2011</b>	Cwyn gan aelod o staff ynglŷn â manylion hyfforddiant yn cael eu hanfon yn uniaith Saesneg	Yr Uned Hyfforddi yn cadarnhau fod y neges yn uniaith Saesneg am mai dyna iaith y sesiwn. Anfonwyd neges uniaith Gymraeg i'r sawl oedd yn mynychu'r sesiynau Cymraeg. Yr Uned wedi cytuno i anfon negeseuon dwyieithog ar gyfer cyrsiau Saesneg o hyn ymlaen. D.S. Roedd y cwrs penodol yma ar gael i staff Gynghorau tu hwnt i Wynedd
<b>Mehafin 2011</b>	Cwyn gan aelod o staff ynglŷn â neges "Allan o'r Swyddfa" uniaith Saesneg o'r Adran Ymgynghoriaeth	Anfon e-bost at y Pennaeth yn gofyn iddo atgoffa staff o'r angen i anfon negeseuon dwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
<b>Mehefin 2011</b>	Cwyn ynglŷn â gwahoddiad i lansiad swyddogol “Insport a Champfa i’r Teulu” lle cyflwynwyd y neges yn y drefn ieithyddol anghywir	Yn dilyn y gwyn, anfonwyd ymddiheuriad gan y Gwasanaeth at y gwahoddedigion yn datgan fod y drefn yn anghywir
<b>Awst 2011</b>	Cwyn yn cyrraedd Arweinydd y Cyngor ynglŷn â llythyr uniaith Saesneg o’r Cyngor	Ymdrin â’r gwyn penodol, ac Arweinydd y Cyngor yn anfon nodyn atgoffa i bob Pennaeth ynglŷn â gofynion gohebu’r Cynllun Iaith
<b>Awst 2011</b>	Cwyn fod e-fwletin gwybodaeth Partneriaeth Economaidd Gwynedd (PEG) yn uniaith Saesneg (yn yr achos yma mae e-byst Cymraeg a Saesneg yn cael eu dosbarthu ar wahân)	Anfonwyd ymddiheuriad gan yr Adran Nid yw’r gyfundrefn gyfrifiadurol sy’n rheoli’r dosbarthiad yn ei gwneud yn ymarferol i anfon yn ddwyieithog mewn un e-bost, ac yn yr achos yma, derbyniwyd y fersiwn Saesneg yn gyntaf Fel arfer, gofynnir i’r sawl sydd wedi’u cofrestru nodi eu dewis iaith (yn unol â’r Cynllun Iaith) Yn yr achos yma, dosbarthwyd y bwletin i gynulleidfa ehangach, lle nad oedd y dewis iaith yn hysbys. Er bod y bwletin wedi’i hanfon yn y Gymraeg a’r Saesneg, yn anffodus, y fersiwn Saesneg aeth allan gyntaf. At y dyfodol ac yn unol ag ysbryd y Cynllun Iaith, pan ddosbarthir i gynulleidfa ehangach, y neges Gymraeg gaiff ei hanfon yn gyntaf, gyda nodyn esboniadol ar derfyn pob e-bost

<b>DYDDIAD</b>	<b>CWYN</b>	<b>YMATEB.</b>
<b>Hydref 2011</b>	Cwyn am ohebiaeth o'r Adran Democratiaeth a Chyfreithiol ynglŷn ag ansawdd iaith y llythyr a defnydd o'r Saesneg ar gynllun	Yr Adran yn ymateb ar y cyd gyda Gwasanaeth Rheoleiddio, gan nodi fod rhai cyfeiriadau uniaith Saesneg ar gynllun a ddarparwyd gan ymgynghorydd. Bydd yr Adran Rheoleiddio'n adolygu defnydd o iaith wrth osod disgrifiadau ar gynllun
<b>Hydref 2011</b>	Cwyn am ohebiaeth uniaith Saesneg o'r Adran Cyllid mewn ymateb i ymholiad Cymraeg	Yr Adran yn anfon eu hymddiheuriadau dros fethu, yn yr achos yma, a darparu'n unol a dewis iaith
<b>Tachwedd 2011</b>	Cwyn ynglŷn â gorddefnydd o'r Saesneg ar docynnau Neuadd Dwyfor	Yr Adran Economi ac Adfywio wedi cadarnhau eu bod bellach wedi addasu'r system i gynnwys manylion llawn yn y Gymraeg. Byddent hefyd yn mabwysiadu'r wyddor Gymraeg ar gyfer y seddi
<b>Rhagfyr 2011</b>	Dau gŵyn ynglŷn â methiant y Cyngor i gynnig dewis iaith mewn deunydd gyda chylchrediad eang- e.e. Gofynion Treth Cyngor, a gynhyrchir yn ddwyieithog ( Noder mai cais am ddeunydd yn y Saesneg yn unig oedd y rhain)	Y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn llunio llythyr yn amlinellu gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg, ac yn esbonio mai'r drefn safonol yw anfon deunydd gyda chylchrediad eang yn ddwyieithog.

<b>DYDDIAD</b>	<b>CWYN</b>	<b>YMATEB.</b>
<b>Rhagfyr 2011</b>	3 cwyn yn erbyn yr Adrannau Darparu a Hamdden a Rheoleiddio ynglŷn â hysbysebion a gwybodaeth Saesneg yn y wasg leol	Cysylltu â'r Unedau penodol, gan eu hatgoffa o ofynion y Cynllun Iaith. Roedd dau o'r esiamplau yn ymwneud a hysbysebion a chyngor ar ffurf erthyglau, a chodwyd ymwybyddiaeth staff ar sicrhau fod gwybodaeth o'r fath (sydd dan reolaeth y Cyngor yn hytrach na Golygydd y papur) yn ddwyieithog
<b>Ionawr 2012</b>	Cwynion ynglŷn â threfniadau cyfarfod cyhoeddus wedi'i drefnu gan y Tîm Cyfiawnder Ieuencid: Taflen uniaith Saesneg yn y lle cyntaf yn hysbysebu'r digwyddiad a diffyg cyfieithu-ar-y pryd yn ystod y cyfarfod	Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymddiheuro am y camgymeriadau. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Tîm, byddwn yn cyflwyno dwy sesiwn hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith i'r staff yn ystod mis Mehefin 2012
<b>Ionawr 2012</b>	Cwyn ynglŷn ag arwydd ffordd uniaith Saesneg yn Nhrefor	Yr Adran Reoleiddio heb gofnod o ba bryd a osodwyd yr arwydd yn wreiddiol, ond yn cadarnhau bod yr arwydd wedi'i newid
<b>Chwefror 2012</b>	Cwyn gan Bartneriaeth Amgylcheddol Gwynedd ynglŷn â chyflwyniad uniaith Saesneg gan yr Adran Ymgynghoriaeth	Camddealltwriaeth ynglŷn â gofynion ieithyddol y cyflwyniad: Ond achubwyd ar y cyfle i atgoffa'r swyddogion perthnasol o'r gofyn i hyrwyddo'r Gymraeg mewn cyfarfodydd o'r math

**CWYNION YN YMWNEUD A CHYRFF ERAILL**

<b>DYDDIAD</b>	<b>CWYN</b>	<b>YMATEB.</b>
<b>Mawrth 2011</b>	Cwyn gan Aelod am ail-frandio cynnyrch Hufenfa De Arfon	Cysylltu â'r cwmni a derbyn ymateb yn amlinellu eu rhesymau dros ail-frandio
<b>Mawrth 2011</b>	Cwyn gan aelodau'r Is-bwyllgor ynglŷn â natur gamarweiniol cwestiwn 18 Cyfrifiad 2011- "Beth yw eich prif iaith?" (mae'n debyg byddai llawer o siaradwr Cymraeg yn ymateb "Saesneg" oherwydd diffyg cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg	Swyddfa'r Cyfrifiad yn nodi mai pwrpas y cwestiwn oedd canfod pobl nad Cymraeg na Saesneg yw eu prif iaith: Roedd lle i ddatgan sgiliau yn yr iaith Gymraeg yn y cwestiwn blaenorol
<b>Ebrill 2011</b>	Cwyn gan ddau aelod o staff ynglŷn ag iaith wallus mewn llythyr o swyddfa'r Cyfrifiad	Swyddfa'r Cyfrifiad yn ymddiheuro am yr achos yma, ac yn datgan mai gwall cyfrifiadurol oedd yn gyfrifol am y gwallau
<b>Ebrill 2011</b>	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd mai fersiwn Saesneg o'i gyfeiriad ymddangosodd ar ohebiaeth o swyddfa'r Cyfrifiad	Cyfrifiad yn defnyddio rhestrau'r Post Brenhinol (gweler 3.2. Isod) a'r Cofrestr Tir ac Eiddo
<b>Ebrill 2011</b>	Cwyn gan staff mai ond rhan o'r ddogfen Canllaw Dangosyddion Cenedlaethol (Uned Ddata Cymru ) sydd ar gael yn y Gymraeg	Cysylltu ag Uned Ddata Cymru
<b>Ebrill 2011</b>	Cwyn gan staff nad yw'r ddogfen <i>Delegated Authority fôr Foster Carers</i> (Llywodraeth Cymru) ar gael yn y Gymraeg	Cysylltu â Llywodraeth Cymru



<b>DYDDIAD</b>	<b>CWYN</b>	<b>YMATEB.</b>
<b>Ebrill 2011</b>	Cwyn gan Gyngor Cymuned Pentir ynglŷn ag arwyddion ar flaen bysus cwmni Padarn	Llythyru a'r cwmni; trafodaethau ar y gweill
<b>Ebrill 2011</b>	Cwyn gan staff fod disgwyl iddynt rannu ffurflenni uniaith Saesneg (prosiect partneriaeth sector gyhoeddus)	Y Cyngor yn cyfieithu'r ffurflen, ond ariannu hyn drwy gyllid y prosiect
<b>Mai 2011</b>	Cwyn gan Bennaeth Gofal Cwsmer nad yw'r system darparu ffurflenni trwyddedu ELMS yn caniatáu ffurflenni Cymraeg	Cyfeirio at Fwrdd yr Iaith Gymraeg: Trafodaethau'n parhau drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
<b>Mai 2011</b>	Cwyn gan aelod o staff ynglŷn â diffyg papurau cefndir dwyieithog a chyfieithu ar y pryd mewn cyfarfod Rhwydwaith Siarter Cynghorau Cymuned a drefnwyd gan Lywodraeth y Cynulliad	Derbyn ymddiheuriad gan y trefnwyr, gyda chadarnhad y byddent yn parchu dewis iaith o hyn ymlaen
<b>Mehffin 2011</b>	Mae'r meddalwedd sy'n cynhyrchu Tystysgrifau Ynni ar gyfer adeiladau cyhoeddus wedi newid, a bellach mae disgwyl i sefydliadau dalu dwywaith am fersiwn dwyieithog	Cyfeiriwyd y mater at Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a llwyddwyd i sicrhau datrysiad
<b>Awst 2011</b>	Cwyn nad yw'r ddogen "Protecting Children and Young People from Child Sexual Exploitation" ( Llywodraeth Cymru) ar gael yn y Gymraeg	Y Llywodraeth yn ymateb nad oedd y ddogfen wedi sgorio'n ddigon uchel iddi gael ei blaenoriaethau ar gyfer cyfieithu. Bu'r Grŵp Llywio Plant a Theuluoedd yn trafod y mater, ac o ganlyniad, bydd y Cadeirydd yn anfon llythyr at y Gweinidog perthnasol

<b>DYDDIAD</b>	<b>CWYN</b>	<b>YMATEB.</b>
<b>Awst 2011</b>	Cwyn ynglŷn ag arwydd newydd ger cylchdro Bodawen yn nodi'r llythrennau "WC" (Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am yr arwydd)	Llywodraeth Cymru yn ymateb mai symbol rhyngwladol yw "WC" sy'n cael ei ddiffinio o fewn Confensiwn Fienna ar Arwyddion a Signalau Ffordd 1968
<b>Medi 2011</b>	Holiadur "State of Play" gan Play Wales wedi'i anfon yn uniaith Saesneg i'r Cyngor	Cysylltu â Play Wales
<b>Medi 2011</b>	Cwyn gan bennaeth Ysgol ynglŷn â hyfforddiant a roddwyd i un o'r Glanhawyr: Roedd y ddogfennaeth yn uniaith Saesneg a bu gofyn i'r ymgeisydd gyflawni tasg ysgrifennu yn y Saesneg	Mae'r Adran Ddarparu'n ymchwilio ymhellach, a byddent yn codi'r mater gyda'r asiantaeth sy'n cynnig y cwrs
<b>Ionawr 2012</b>	Uned Gyfathrebu'n mynegi pryder ynglŷn â derbyn fersiynau Cymraeg o'r canllawiau cyfathrebu ar gyfer daith y fflag Olympaidd	Yr uned wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru, gan dderbyn cadarnhad bydd y llywodraeth yn cefnogi ein cais am ddogfennaeth ddwyieithog
<b>Ionawr 2012</b>	Cwyn gan Gyngor Tref Porthmadog ynglŷn â gwahoddiadau uniaith Saesneg gan Lywodraeth Cymru i seremoni agor ffordd osgoi Porthmadog	Gohebu ag Uned Iaith Llywodraeth Cymru i fynegi siom a gofyn am eu sylwadau: Derbyn ymateb yn ymddiheuro a chadarnhau mai camgymeriad oedd anfon llythyr uniaith Saesneg
<b>Ionawr 2012</b>	Cwyn gan Gyngor Tref Porthmadog ynglŷn â defnydd o Ffordd y Traeth (cyfieithiad o "Beach Road") yn hytrach na "Ffordd Gwydryn" ar fap	Yr Adran Reoleiddio yn cyfaddef mai camddealltwriaeth oedd hwn ac mai Ffordd Gwydryn yw'r ffurf gywir

O safbwynt cwynion yn erbyn Cynllun Iaith y Cyngor, gellir crynhoi tabl i) uchod fel a ganlyn, yn unol â dangosydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg

iii) DIG 6

<b>Nifer Cwynion</b>	<b>% a ymdriniwyd â hwy</b>	<b>Ymdrîn yn ôl safonau corfforaethol</b>	<b>Targed 2012-13</b>
17	100%	100%	100%

#### **4. Rheolaeth a Gweinyddiad y Cynllun**

##### **A) Trefniadau Trydydd Parti**

###### **i) Contractau Gofal Cymdeithasol**

Yng Ngwanwyn 2012, cyhoeddwyd dogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru "Mwy Na Geiriau" (Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol) sy'n gosod gofynion a blaenoriaethau cadarn o safbwynt darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Un maes amlwg lle bydd angen ymgymryd â'r her yma yw gwasanaethau gofal cymdeithasol dan gytundeb.

Oherwydd hyn, ac yn sgil y cyfarwyddid ymarferol a gyflwynwyd i staff yr Uned Comisiynu a Chontractau drwy Ganllaw Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar Osod Contractau a'r hyfforddiant dilynol, penderfynwyd eleni rhoi ffocws penodol ar ein trefniadau yn y maes yma. Gan fod yr Uned eisoes yn darparu ar gyfer y gofynion newydd, byddwn yn cyflwyno adroddiad manwl ar drefniadau 2011-12 ac yn amlinellu'r trefniadau newydd at y dyfodol.

Noder bod y canlyniadau ar hyn o bryd yn 100% llwyddiannus ym mhob categori: Mae hyn yn seiliedig ar y wybodaeth ddaw i law yn unol â'r dulliau monitro presennol. O gryfhau ein monitro fel yr amlinellir isod, gall y % cydymffurfiaeth ostwng, ond gallwn fod yn fwy hyderus ein bod yn cael darlun gwell o'r gwir sefyllfa.

Mae adroddiad eleni ar Gontractau Gofal Cymdeithasol yn rhannu'n ddau: Amlinelliad o'n trefniadau presennol o safbwynt cydymffurfiaeth a dulliau monitro (top desg ac ymweliadau) a hefyd cyfres o bwyntiau sy'n crynhoi'r gwelliannau fydd yn cael eu rhoi ar waith yn ystod 2012-13.

Dylid nodi yn ogystal fod yr Uned Contractau a Chomisiynu yn monitro unrhyw gwyn iaith ynghlwm a gwasanaethau dan gytundeb. Fel arfer, bydd cwynion yn cael eu derbyn trwy'r Rheolwr Contractau a'r Swyddogion Monitro'r Uned ond, yn aml, daw cwynion drwy'r Tîm Broceriaeth. Ymatebir i unrhyw gwynion un ai yn anffurfiol drwy'r Uned neu ar lefel fwy ffurfiol drwy Uned Gofal Cwsmer Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn y cyfnod monitro dan sylw, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion iaith (ffurfiol nac anffurfiol).

Adrodd ar 2011-12

### **Mudiadau Gwirfoddol**

<b>Nifer</b>	<b>% wedi'u monitro</b>	<b>% yn cydymffurfio</b>	<b>% ddim yn cydymffurfio</b>
29	100%	100%	0%

Cytundeb Lefel Gwasanaeth sy'n bodoli rhwng y Cyngor a'r Mudiadau Gwirfoddol ac mae yna ddau gymal sy'n ymwneud ag iaith o fewn y Cytundeb:

#### **A 17. Gofynion Ieithyddol Penodol**

Wrth dderbyn y grant a gweithredu'r cytundeb, bydd raid i chwi gydymffurfio a'r cymalau perthnasol yng Nghynllun Iaith Cyngor Gwynedd drwy:

- Sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn dewis iaith y defnyddiwr a'i deulu/theulu;
- Cofnodi dewis iaith y defnyddiwr a'i deulu/theulu;
- Trefnu bod gwybodaeth a llenyddiaeth a ddarperir i'r cyhoedd yn ddwyieithog;
- Sicrhau bod arwyddion a hysbysebion yn ddwyieithog
- Sicrhau bod trefniadau cyfieithu mewn lle.

Byddwn yn eich annog i ddatblygu a mabwysiadu Datganiad neu Bolisi Iaith. Ceir cymorth pellach gan Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd.

#### **B 1. Polisi Dwyieithog**

Bydd yn ofynnol i'r Darparwr lynu wrth Bolisi Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd neu

wrth bolisi a fabwysiadwyd ac a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n

dangos yn glir ymrwymiad i gyflwyno gwasanaeth dwyieithog.

Bydd y Darparwr yn sicrhau:-

- i. Y caiff gwasanaethau eu darparu yn dewis iaith defnyddiwr y gwasanaeth
- ii. Bod yr wybodaeth a'r llenyddiaeth a ddarperir i'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- iii. Bod arwyddion a hysbysebion yn ddwyieithog.
- iv. Bod trefniadau ar gael ar gyfer cyfieithu.

## **Monitro Mudiadau Gwirfoddol (Top Desg):**

- Mae'r **Partneriaeth Datblygu Gweithlu**'r Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn gyrru holiadur i'r mudiadau gwirfoddol, darparwyr gofal cartref a'r cartrefi preswyl & gofal unwaith y flwyddyn sydd y cynnwys y cwestiwn:

### **iaith**

Faint o'r staff y'n siarad Cymraeg?	
Faint of staff sy'n siarad Saesneg?	
Faint o'r staff ddim yn siarad Saesneg na Chymraeg fel iaith gyntaf?	

Mae'r holiaduron yn cael eu hanfon at y Cymhorthydd Contractau sy'n monitro eu cynnwys.

- Mae rhai mudiadau yn gwirfoddoli gwybodaeth am y gwasanaeth fel rhan o'r adroddiadau monitro chwarterol oedd yn cael eu hanfon i'r Cymhorthydd Contractau. E.e.

### **1. Trais yn y Cartref**

Nifer o ferched a phlant yn cael eu cefnogi

#### **Ethnigrwydd**

Cymraeg Gwyn	Cymraeg Prydeinig	Gwyn Ewropeaidd
--------------	-------------------	-----------------

#### **iaith Gyntaf**

Cymraeg	Saesneg	Rwsieg
---------	---------	--------

### **2. Cil De Gwynedd**

Ydi'r defnyddwyr yn cael cynnig y gwasanaeth yn iaith o'u dewis?

### **3. Gisda**

<b>Dangosydd</b>	<b>Targed Blynnyddol</b>	<b>Cynnyrch Chwarterol</b>			<b>Cynnydd /system golau traffig</b>
Nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth sydd yn siaradwyr Cymraeg.		32	39	34	☺

## **Monitro Mudiadau Gwirfoddol (Ymweliadau)**

Roedd yr Uned yn cyflogi Swyddog Monitro Contractau Rhan Amser yn ystod Ebrill – Rhagfyr 2011 a bu'n bosib iddi ymweld â:

- Gofal a Thrwsio
- Cil De Gwynedd

### Darparwyr Gofal Cymunedol

Nifer	% wedi'u monitro	% yn cydymffurfio	% ddim yn cydymffurfio
18	100%	100%	0%

Mae'r Cytundebau Gwasanaeth gyda Darparwyr Gofal Cymunedol yn cynnwys y gofynion isod:

#### **43. POLISI IAITH GYMRAEG Y CYNGOR**

43.1 Bydd yn ofynnol i'r Darparwr lynu wrth Bolisi Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd neu wrth bolisi a fabwysiadwyd ac a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n dangos yn glir ymrwymiad i gyflwyno gwasanaeth dwyieithog.

43.2 Bydd y Darparwr yn sicrhau:-

- i. Y caiff gwasanaethau eu darparu yn dewis iaith defnyddiwr y gwasanaeth
- ii. Bod yr wybodaeth a'r llenyddiaeth a ddarperir i'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- iii. Bod arwyddion a hysbysebion yn ddwyieithog.
- iv. Bod trefniadau ar gael ar gyfer cyfieithu.

### Monitro Gofal Cymunedol (Top Desg)

- Fel uchod, mae'r Bartneriaeth Datblygu Gweithlu yn anfon holiadur sy'n gofyn am sgiliau iaith y staff. Caiff yr ymatebion eu monitro.

### Monitro Gofal Cymunedol (Ymweliadau)

- Yn ystod 2011/12 cafodd holiadur Defnyddwyr Gwasanaeth Gofal Cartref ei yrru allan i ganran o'r defnyddwyr gan gynnwys y cwestiwn isod:

**Cafodd y gwasanaeth gofal cartref ei gynnig i chi yn eich iaith ddewisol?**

Do  Naddo

**Sylwadau ychwanegol:**

100% adborth - holl ddefnyddwyr gwasanaeth wedi cael cynnig gwasanaeth yn ei iaith ddewisol.

## Cartrefi

Nifer	% wedi'u monitro	% yn cydymffurfio	% ddim yn cydymffurfio
34	100%	100%	0%

Mae'r Cytundebau Cartrefi yn cynnwys y gofynion isod:

### Polisi Dwyieithog

Bydd yn rhaid i'r Perchennog gadw at Bolisi'r Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd neu i bolisi a fabwysiadwyd gan y sefydliad ac a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n dangos ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth dwyieithog.

Bydd disgwyl i'r Perchennog sicrhau:

- i. Bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn dewis iaith y defnyddiwr
- ii. Bod gwybodaeth a llenyddiaeth a ddarperir i'r cyhoedd yn ddwyieithog
- iii. Bod arwyddion a hysbysebion yn ddwyieithog
- iv. Bod trefniadau cyfieithu mewn lle.

### Monitro Cartrefi (Top Desg)

- Fel uchod, mae'r Bartneriaeth Datblygu Gweithlu yn anfon holiadur sy'n gofyn am sgiliau iaith y staff. Caiff yr ymatebion eu monitro.

Yn aml, bydd y Cymhorthydd Contractau yn cael ceisiadau "ad hoc" i gasglu gwybodaeth - dyma enghraifft o wybodaeth cafodd ei gasglu yn Nhachwedd 2011:

Cartrefi Preswyl a Nyrsio yn Criccieth a Porthmadog

Cartref	Ardal	Nifer o staff	Nifer o staff yn siarad Cymraeg
Madog	Porthmadog	47	24
Bryn Awelon	Criccieth	24	10
The Pines	Criccieth	30	24
Plas Gwyn	Criccieth	48	32
Plas Newydd	Criccieth	20	16

## **Monitro Cartrefi (Ymweliadau)**

- Yn ystod yr ymweliadau monitro, roedd y Swyddog yn gofyn am olwg ar Bolisiau Iaith Gymraeg. Mewn rhai achosion, bu'r Swyddog yn cydweithio a'r Rheolwr i ddatblygu Polisi.

## **Gofal Cartref**

Tîm Broceriaeth yr Uned Contractau sy'n derbyn y Cynlluniau Gofal Cartref. Mae modd monitro'r elfen iaith drwy nodi os bu modd sicrhau Gofalwyr Cartref Cymraeg yn unol â dymuniad y defnyddiwr. Ers 01/01/12, cafwyd 7 cais am Ofalwr Cartref Cymraeg ac yn anffodus bu methiant i gyflawni hyn mewn 1 achos.

### ii. Newidiadau a Gwelliannau ar gyfer 2012-13

- Mae archwiliad gan yr Adran Awdit ar ddigwydd a bydd yr Adran yn canolbwyntio ar gryfderau/ gwendidau yr Uned Contractau a Chomisiynu o ran monitro'r Iaith Gymraeg, gan gymryd lefelau staffio ayyb i ystyriaeth. Bydd hyn yn amlygu unrhyw wendidau o fewn y drefn bresennol ac yn sylfaen ar gyfer gwella i'r dyfodol
- Mae'r Uned ar fin recriwtio ail Swyddog Monitro llawn amser. Y gobaith yw y bydd y Swyddog yma yn medru ymweld â chanran llawer uwch o'r mudiadau yn ystod 2012/13. Mae'r cyswllt uniongyrchol hefyd yn caniatáu gwaith rhagweithiol rhwng y Swyddogion a'r mudiadau, fel sydd wedi digwydd eisoes gyda'r Swyddog Monitro'n hybu a chefnogi mudiadau i lunio Polisiau Iaith.
- Mae'r Holiadur Fframwaith Monitro Cartrefi Preswyl a Nyrsio newydd yn cynnwys adran sy'n gofyn faint o staff ar wahanol raddfeydd sy'n gallu'r Gymraeg i wahanol lefelau
- Bydd y Bartneriaeth Datblygu Gweithlu yn parhau gyda'r monitro a amlinellir uchod. Yn sgil "Mwy Na Geiriau" (Llywodraeth Cymru), bydd modd edrych ar roi fwy o bwysau ar fudiadau i fynychu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith. Mae'r trafodaethau yma'n bwrw mlaen gyda'r Bartneriaeth Datblygu Gweithlu a'r Uned Contractau a Chomisiynu.
- Yn ystod y flwyddyn i ddod, defnyddir y Fforwm Darparwyr Gofal i godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ac o ofynion "Mwy Na Geiriau". Cyflwynir y gofynion yma mewn ffordd gadarnhaol, gan gynnig cymorth ymarferol i gydymffurfio fel bo'r gofyn.



- Bydd Grŵp Tasg yn edrych ar a chofnodi rhagoriaethau cartrefi mewn meysydd penodol: Un o'r meysydd yma fydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Mae cytundeb newydd ar gyfer Cartrefi Preswyl a Nyrsio ar fin cael ei gadarnhau. Lluniwyd hwn yng ngoleuni'r Fframwaith Rhanbarthol a chanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar osod contractau. Trafodwyd y mater gyda'r Swyddog Hyrwyddo Iaith a'r Swyddog Cydraddoldeb ac iaith er mwyn sicrhau ei fod hefyd yn cydymffurfio'n llawn a gofynion Cynllun Iaith y Cyngor.

ii) ac iii) Contractau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc a chontractau ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol

ii) Cynlluniau Cymorth

Gyda chynlluniau Cymorth 2011-2012, mae'r amodau ieithyddol fel ag y nodwyd yn yr adroddiad blaenorol, ond bydd newid i'r dyfodol gan fod y grant yn newid i 'Teuluoedd yn Gyntaf' sydd yn mynd i'r afael a thlodi plant. Bydd eleni eto yn flwyddyn trawsnewid lle bydd cynlluniau yn newid i ymateb a gofynion ac egwyddorion y grant newydd sef cynnal darpariaeth sydd yn - canolbwyntio ar deuluoedd, yn bwrpasol, yn integredig, yn rhagweithiol, yn ddwys ac yn lleol. Bydd angen i ddarpariaethau lleol hefyd ganolbwyntio mwy ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd sydd yn byw mewn tldi.

Mae'r cynlluniau yma'n cael eu monitro o safbwynt cydymffurfiaeth iaith drwy gyfuniad o ymweliadau monitro gan swyddogion y tîm ac ymweliadau siopwyr cudd. Ceir hefyd adroddiadau monitro gan y darparwyr a chyfarfodydd i drafod y cytundebau ac i ddiweddarau.

<b>Cyfanswm Cynlluniau</b>	<b>% wedi'u monitro</b>	<b>% yn cydymffurfio</b>	<b>% ddim yn cydymffurfio</b>
27	100%	100%	0%

Contract ar y cyd gyda Gwasanaethau Cymdeithasol

<b>Cyfanswm Cynlluniau</b>	<b>% wedi'u monitro</b>	<b>% yn cydymffurfio</b>	<b>% ddim yn cydymffurfio</b>
1	100%	100%	0%

### iii) Contractau Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar

#### Cynlluniau Dechrau'n Deg

<b>Cyfanswm Cynlluniau</b>	<b>% wedi'u monitro</b>	<b>% yn cydymffurfio</b>	<b>% ddim yn cydymffurfio</b>
12	100%	83.3%	16.7%

Gweler fod 2 o'r cynlluniau uchod ddim yn cydymffurfio, ac ymhelaethir ar hyn isod:

- a) Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg: Y rheswm dros fethu a chydymffurfio yw bod rhai o'r staff a gyflogir gan y Gwasanaeth Iechyd ddim yn siarad Cymraeg. Erbyn hyn, mae'r Swyddog Gwella Ansawdd Blynyddoedd Cynnar wedi gosod amod y bydd rhaid i staff sydd ddim yn siaradwyr Cymraeg, fynychu cwrs i ddysgu'r iaith er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r Swyddog Gwella Ansawdd Blynyddoedd Cynnar hefyd wedi bod mewn trafodaethau efo'r bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod swyddi newydd o fewn ardaloedd Dechrau'n Deg, yn cael eu hysbysebu bod y Gymraeg yn hanfodol. Dylid nodi'n ogystal bod Llywodraeth Cymru hefyd bellach yn pwysleisio pwysigrwydd bod y Byrddau Iechyd yn hysbysu swyddi gyda'r Gymraeg yn hanfodol, gan gefnogi ein gofynion fel darparwyr gwasanaeth yng Ngwynedd.
- b) National Childminding Association (NCMA): Y prif reswm nad yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio yw oherwydd materion staffio: Dylid nodi fodd bynnag nad yw hyn yn cael effaith ar y gwasanaeth a gyflwynir i'r cyhoedd, ond yn hytrach y cyngor a chefnogaeth a gynigir i warchodwyr.

## **5. Digonolrwydd Sgiliau Iaith Gymraeg**

### **A) Hyfforddiant Iaith ac Ymwybyddiaeth Iaith**

#### Hyfforddiant yn y Gymraeg

Gweler isod adroddiad y Swyddog Datblygu Gweithlu ynglŷn â staff bu'n derbyn gwersi iaith yn ystod y cyfnod Ionawr 2009- Rhagfyr 2010. Mae'r monitro'n digwydd pob 6 mis ac ni ddisgwylir adroddiad arall tan fis Gorffennaf. Serch hyn, mae'r adrodd ar hyfforddiant iaith yn cyflwyno cyswllt cyson a'r Adroddiad Monitro blaenorol.

**Adroddiad Mai 2012 ar Hyfforddiant Iaith Gymraeg 2011**  
**Hyfforddiant iaith Gymraeg Staff Cyngor Gwynedd Ionawr – Rhagfyr**  
**2011**

	<b>Ionawr/ Gorffennaf 2011</b>	<b>Awst/ Rhagfyr 2011</b>
Cyfanswm Dysgwyr – pob safon	<b>48</b>	<b>47</b>
<b><u>Dosbarthiadau Mewnol</u></b> <b><u>Caernarfon</u></b> Wlpan (Lefel Sylfaen) Pellach (lefel Canolradd) Meistroli (Lefel Uwch)	<b>5</b>  <b>5</b>	<b>5</b>  <b>3</b>
<b><u>Allanol</u></b> <b><u>Darparwyr Amrywiol:</u></b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Prifysgol Aberystwyth</li> <li>• Prifysgol Bangor</li> <li>• Coleg Menai</li> <li>• Coleg Meirion-Dwyfor (Llandrillo)</li> <li>• Popeth Cymraeg</li> <li>• Coleg Glannau Dyfrdwy</li> </ul>	<b>8</b> <b>9</b> <b>1</b> <b>7</b> <b>2</b> <b>1</b>	<b>12</b> <b>18</b> <b>1</b> <b>6</b> <b>2</b> <b>0</b>
<b><u>Cyrsiau Dwys Allanol</u></b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgol Ionawr Dolgellau 2011</li> <li>• Ysgol Galan Bangor 2011</li> <li>• Ysgol Haf Dolgellau 2011</li> <li>• Ysgol Haf Bangor 2011</li> </ul>	<b>3</b> <b>4</b> <b>2</b> <b>2</b>	
<b><u>Cwrs Cymraeg yn y Gweithle – 3 diwrnod</u></b> <b><u>– pob lefel iaith</u></b> <i>Ar y cyd gyda Chynghorau Sir Môn, Conwy, Fflint, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân, Cyngor Cefn Gwlad</i>  Medi 2011  <b><u>Gloywi iaith</u></b>  <b><u>Cyrsiau hyd at 20 awr dros gyfnod o</u></b> <b><u>wythnosau</u></b> <b><u>Cyfanswm:</u></b> Coleg Menai Bangor Coleg Llandrillo Dolgellau	<b>16</b>         <b>5</b> <b>1</b>	

## Monitro Cynnydd 2011

Anfonwyd ffurflenni monitro cynnydd at y tiwtoriaid a'r rheolwyr llinell yng Ngorffennaf a Rhagfyr er mwyn nodi cynnydd y staff yn y Gymraeg ac unrhyw sylwadau perthnasol eraill yn ymwneud â'r dysgu. Roedd lle i dicio blychau :

- *Dim cynnydd mesuradwy*
- *Ychydig*
- *Llawer*

gyferbyn â *Gwrando a Siarad, Darllen ac Ysgrifennu*. Os na chafwyd sylwadau gan y rheolwr yna cymerwyd sylwadau'r tiwtor fel tystiolaeth.

Dyma'r canrannau - o'r dystiolaeth ddaeth i law:

	Llawer	Ychydig	Dim cynnydd mesuradwy
Gorffennaf 2011	43%	57%	0%
Rhagfyr 2011	55%	45%	0%

### Sylwadau:

Mae'n ddiddorol sylwi bod canran y staff sy'n astudio ar lefelau Canolradd ac Uwch wedi codi eleni - 64% gyda'i gilydd (gweler isod). Os yw dysgwr ar lefel Canolradd mae'n gallu cyfathrebu'n eithaf da ar lefel bob dydd, ac os yw ar lefel Uwch mae'n gallu gweithredu'n broffesiynol - ar lafar o leiaf - yn y Gymraeg.

### Lefelau Iaith CBAC – Rhagfyr 2011

#### Canran staff oedd yn mynychu gwersi ar y gwahanol risiau iaith

**Mynediad:** Cwrs Mynediad 1 a 2, neu hanner cyntaf Cwrs Wlpan

**Sylfaen:** Cwrs Sylfaen neu ail hanner Cwrs Wlpan

**Canolradd:** Cwrs Canolradd neu'r Cwrs Pellach - cyfateb i safon TGAU

**Uwch:** Cwrs Uwch (1) Cwrs Meistroli (2)

Mynediad	Sylfaen	Canolradd	Uwch
17%	19%	28%	36%

## **Trefniadaeth:**

Cynhaliwyd dau ddsbarth mewnol yng Nghaernarfon, a chafwyd lleoliadau i'r dysgwyr eraill ar gyrsiau oedd yn cael eu rhedeg gan ddarparwyr allanol.

Cafwyd cryn anhawster i drefnu dosbarthiadau addas ar gyfer rhai unigolion ym Meirionnydd. Roedd pellter ac amseroedd anaddas yn gwneud y gwaith yn anodd iawn ar adegau. Golygai hyn fod ambell unigolyn wedi gorfod mynd am gyfnodau heb hyfforddiant addas. Er mwyn ceisio lliniaru'r sefyllfa yma penderfynwyd y byddai Tiwtor Iaith y Cyngor yn mynd i Ddolgellau a Thywyn i gynnal gwersi o Ionawr 2012 ymlaen ar gyfer rhai grwpiau.

## **Gwobr Goffa Dafydd Orwig 2011/12**

Enwebwyd dwy yma ar ddiwedd 2011 ar gyfer y wobwr yma yng nghyfarfod gwobrwyo Mawrth 2012:

- Kathryn Anne Williams, Therapydd Galwedigaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol
- Keira Hendry, Rheolwr ar Ddyletswydd, Darparu a Hamdden

Oherwydd bod y ddwy cystal, penderfynwyd y dylai'r ddwy dderbyn gwobr *Croesi'r Bont*.

## **Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith**

Fel y nodwyd yn yr Adroddiad blaenorol, mae Ymwybyddiaeth Iaith yn rhan o'n prosesau anwytho (y sesiwn gyflwyno a'r pecyn). Mae'r sesiynau yma ar gael i holl staff "coler wen" y Cyngor (ac eithrio staff dros-dro llai na 6 mis neu achlysurol). Rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012, bu 133 o staff newydd yn mynychu'r sesiynau Anwytho. I'r sawl sydd ddim yn mynychu'r sesiwn anwytho, ceir anwytho mewn swydd, sef sesiwn gyda'r Rheolwr Llinell; gofynnir i'r Rheolwr dynnu sylw at ofynion ieithyddol y Cyngor fel rhan o'r broses yma yn ogystal.

O ran cyflwyno Ymwybyddiaeth Iaith drwy e-ddysgu, ni fu cynnydd eleni: Ond, y bwriad yw cael trefniadau ( i gynnwys Ymwybyddiaeth Iaith) mewn lle erbyn Mai 2013. O safbwynt cyflwyno polisïau ar-lein, mae'r Tîm Rheoli Adnoddau Dynol yn adolygu'r gofynion, gyda'r bwriad o gyflwyno'r Cynllun Iaith dan y trefniadau diwygiedig.

Fel yr amlinellir yn 3i) uchod, mae'r Bartneriaeth Datblygu Gweithlu a'r Uned Contractau a Chomisiynu (Gwasananethau Cymdeithsol) yn edrych tuag at hyrwyddo ac annog Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith i ddarparwyr gofal cymdeithasol dan gytundeb, ac fe gefnogir hyn gan ofynion penodol newydd sy'n codi o'r ddogfen "Mwy Na Geiriau" (Llywodraeth Cymru).

Dylid nodi yn ogystal fod gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnig Ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r cwrs anwytho i staff gofal y Cyngor. Yn ystod 2011-12, cynhaliwyd 5 cwrs anwytho o'r math, gydag 20 yn mynychu pob un.

Yn ystod mis Mehefin 2012, ac yn dilyn trafodaethau ynglŷn â gofynion y gwasanaeth, cyflwynwyd dwy sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'r Tîm Cyfiawnder Ieuencid gan y Swyddog Datblygu Gweithlu a'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith

## **B) Sgiliau Ieithyddol Staff**

Unwaith eto eleni, yn absenoldeb system gyson i gofnodi sgiliau ieithyddol staff, bu rhaid cysylltu â Phenaethiaid Adran i geisio gwybodaeth.

Mae'r Cyngor wedi adnabod ers cryn amser bellach fod cael system adnoddau dynol cyfrifiadurol gynhwysfawr am ein galluogi i gadw gwell gwybodaeth am ein gweithlu ac mae wedi adnabod yr angen am system o'r fath a chlustnodi adnodd ar ei gyfer.

Oherwydd y budd amlwg fyddai'n deillio yn y maes yma o fod yn cydweithio i gael cyfundrefn o'r fath 'rydym wedi bod yn ceisio annog cynghorau eraill yn y Gogledd i gydweithio gyda ni i wneud hynny ond erbyn hyn daeth yn amlwg nad oedd y dymuniad yno i wneud hynny. Mae hyn wedi creu cryn oedi i ni, ond erbyn hyn mae'r gwaith bellach yn mynd yn ei flaen i geisio sefydlu system ar gyfer y cyngor a gobeithir y byddwn wedi ei fewnosod ar draws y Cyngor erbyn Mawrth 2014.

Mae'r data isod yn crynhoi'r holl wybodaeth ddaeth i law. Unwaith eto, nid ydym yn cyhoeddi'r holl wybodaeth, gan fod y nifer sydd ddim yn siarad Cymraeg mor isel mewn rhai Adrannau fel y gall hyn dynnu'n groes a'r Ddeddf Diogelu data.

Yn amlwg, bydd angen rhagor o waith i'r dyfodol ar gofnodi sgiliau iaith staff. Ond er bod y ffigyrau isod yn rhai elfennol, maent yn ein cynorthwyo i adnabod meysydd blaenoriaeth.

### **Addysg**

Yr holl weithlu'n gallu siarad Cymraeg (100%)

### **Adnoddau Dynol**

Yr holl weithlu'n gallu siarad Cymraeg (100%)

### **Cyllid**

Mae 98.8% o staff Cyllid yn gallu siarad Cymraeg

## **Darparu a Hamdden**

### Gwasanaethau Preswyl

Mae 96% o staff Gwasanaethau Preswyl yn gallu siarad Cymraeg

### Gwasanaeth Cymunedol

Mae 80% o staff gofal Cymunedol yn gallu siarad Cymraeg

### Arlwyo

Mae 78% o staff Arlwyo'n gallu siarad Cymraeg

### Glanhau

Mae 80% o staff Glanhau'n gallu siarad Cymraeg

### Hamdden

Mae 87% o staff Hamdden yn gallu siarad Cymraeg

### Tîm Ffitrwydd a Chwaraeon

Mae 86% o'r Tîm Ffitrwydd a Chwaraeon yn gallu siarad Cymraeg

### Rheolwyr a Gweinyddol

Mae 97% o'r staff Rheoli a Gweinyddol yn gallu siarad Cymraeg

## **Democratiaeth a Chyfreithiol**

Mae 98% o staff yr Adran Democratiaeth a Chyfreithiol yn gallu siarad Cymraeg

## **Economi a Chymuned**

### Cefnogi Busnes

Mae 100% o staff yr Uned Cefnogi Busnes yn gallu siarad Cymraeg

### Sgiliau a Cyflogaeth

Mae 100% o staff yr Uned Sgiliau a Chyflogaeth yn gallu siarad Cymraeg

### Prosiectau Strategol

Mae 100% o staff yr Uned Prosiectau Strategol yn gallu siarad Cymraeg

### Strategaeth a Datblygu

Mae 100% o staff Strategaeth a Datblygu'n gallu siarad Cymraeg

### Adfywio Cymunedol

Mae 100% o staff yr Uned Adfywio Cymunedol yn gallu siarad Cymraeg

### Morwrol a Pharciau Gwledig

Mae 91.3% o staff Morwrol a Pharciau Gwledig yn gallu siarad Cymraeg

### Gwasanaeth Ieuenctid

Mae 84.79% o staff y Gwasanaeth Ieuenctid yn gallu siarad Cymraeg

### Gwasanaeth Amgueddfeydd, Archifau a'r Celfyddydau

Mae 96.43% o staff Amgueddfeydd a Chelfyddydau'n gallu siarad Cymraeg

### **Gofal Cwsmer**

Mae 99% o staff Gofal Cwsmer yn gallu siarad Cymraeg

### **Gwasanaethau Cymdeithasol**

#### Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

Mae 98% o staff Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn gallu siarad Cymraeg

#### Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant a Phobl Ifanc

Mae 100% o staff Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant a Phobl Ifanc yn gallu siarad Cymraeg

#### Lleoliadau Ysbyty / Clinig

Mae 100% o staff Lleoliadau Ysbyty/Clinig yn gallu siarad Cymraeg

#### Gwasanaethau Cartref i Oedolion

Mae 78.6% o staff Gwasanaethau Cartref i Oedolion yn gallu siarad Cymraeg

#### Gwasanaethau Cartref i Blant

Mae 91.9% o staff Gwasanaethau Cartref i Blant yn gallu siarad Cymraeg

### **Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

Mae 98.5% o staff Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn gallu siarad Cymraeg

### **Rheoleiddio**

#### Cynllunio ac Amgylchedd

Mae 100% o staff y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd yn gallu siarad Cymraeg

#### Trafnidiaeth a Gofal Stryd

Mae 94.26% o staff Trafnidiaeth a Gofal Stryd yn gallu siarad Cymraeg

#### Bioamrywiaeth

Mae 100% o staff y Gwasanaeth Cynllunio yn gallu siarad Cymraeg



### Gwarchod y Cyhoedd

Mae 98.48% o staff Gwarchod y Cyhoedd yn gallu siarad Cymraeg

### Parcio a Diogelwch Ffyrdd

Mae 83.3% o staff Parcio a Diogelwch Ffyrdd yn gallu siarad Cymraeg

### **Strategol a Gwella**

Mae 100% o staff Strategol a Gwella yn gallu siarad Cymraeg

### **Ymgynghoriaeth**

#### Ffyrdd a Chaffael

Mae 84% o staff Ffyrdd a Chaffael yn gallu siarad Cymraeg

#### Adeiladu ac Amgylcheddol

Mae 82.5% o staff Adeiladu ac Amgylcheddol yn gallu siarad Cymraeg

## **6. Prif-Ffrydio'r Gymraeg**

### A) Prif-Ffrydio (Strwythurau a Chyfrifoldebau)

Yn ystod y cyfnod monitro, ac fel rhan o ofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, daeth y Dyletswyddau Cydraddoldeb ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru i rym. Mae rhai o'r gofynion yn rhoi sylw penodol i brif-ffrydio cydraddoldeb; Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chynnal asesiadau effaith cydraddoldeb, er enghraifft. Lle bynnag fu'n bosib, manteisiwyd ar y cyfle i ddefnyddio'r gofynion yma i brif-ffrydio iaith Gymraeg yn ogystal.

Y disgwyl yw i ni asesu unrhyw bolisi neu benderfyniad newydd neu unrhyw adolygiad yng nghyd-destun ei effaith posib neu wirioneddol ar gydraddoldeb. Fel rhan o'r broses yma, mae templed asesu effaith Cyngor Gwynedd hefyd yn gofyn i'r swyddogion perthnasol roi'r un ystyriaeth i unrhyw oblygiadau parthed y Gymraeg. Lle canfyddir effaith, bydd gofyn i'r sawl sy'n gyfrifol un ai ail-ystyried y polisi, cyfiawnhau'r polisi neu lunio mesurau pendant i ddileu neu leddfu unrhyw effaith negyddol. e.e. Wrth asesu effaith allanoli gwasanaeth, sicrhau nad oes unrhyw ddirywiad yn ansawdd nag argaeledd y ddarpariaeth iaith Gymraeg drwy amlinellu amodau cadarn o fewn y cytundeb a sicrhau trefniadau monitro iaith ddigonol.

Mewn hinsawdd economaidd lwm, mae'n allweddol bwysig nad ydym yn cyfaddawdu yn ein hymrwymiad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg nag ychwaith cydraddoldeb. Gyda hyn mewn golwg, cychwynwyd ar broses o sgrinio ein cynlluniau arbedion o safbwynt yr oblygiadau cydraddoldeb ac iaith. Os canfyddir unrhyw berthnasedd, risg neu gyfle, yna gofynnir am asesiad effaith law-yn-llaw a datblygu'r cynllun.

Nid yw'r broses yma o angenrheidrwydd yn un negyddol: Weithiau, mae'n bosib canfod manteision o safbwynt yr iaith, ac yn hyn o beth, gall yr asesiad droi'n gyfrwng i wneud y gorau o gyfleoedd cadarnhaol.

Edrychwn ymlaen hefyd at y cyfleoedd ddaw yn sgil y Safonau Iaith i gryfhau'r elfen o brif-ffrydio materion iaith ymhellach.

Yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2012, mae'r Cyngor wedi cychwyn ar y broses o symud i system Gabinet, a dros y flwyddyn i ddod, bydd angen sicrhau fod ystyriaethau'n ymwneud a'r iaith Gymraeg yn parhau i dreiddio drwy'r holl strwythurau democrataidd y Cyngor. Rydym yn falch o nodi bwriad y Cyngor, dan y drefn newydd i barhau gyda fforwm penodol i drafod a rhoi cyfeiriad i faterion ymwneud a'r Cynllun Iaith, sef y Pwyllgor Iaith fydd yn cyfarfod o ddiwedd Mehefin ymlaen.

## B) Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

Fel y nodwyd yn ein Adroddiadau Monitro blaenorol, adweinir y strwythur o hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd wrth yr enw Hunaniaith: mae'n cynnwys nifer o gyrff ac asiantaethau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gyda Chyngor Gwynedd yn gorff arweiniol.

Dros y cyfnod 2011-12, gwireddwyd a chychwynwyd sawl prosiect gan Hunaniaith: Mae rhai o'r prosiectau yn cael eu rhoi ar waith drwy Adrannau'r Cyngor ac eraill yn seiliedig ar gyd-weithio tu hwnt:

### i) **Prosiectau Adrannau'r Cyngor**

- Pencampwyr Hamdden (gweler 3A) uchod
- Plymio i'r Gymraeg; cynllun i godi hyder rhieni plant ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwersi nofio
- Gwasanaethau Ieuenctid (gweler 3C) uchod
- Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd wedi'i chytuno gyda'r amcan o gynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol
- Cynllun Cymunedau Cynaliadwy; un o gynlluniau Datblygu Gwledig yr Adran Economi a Chymuned

### ii) **Prosiectau Ehangach Hunaniaith**

- Cydweithio gyda Chanolfan Cymraeg i Oedolion y Gogledd i gynllunio cyrsiau Cymraeg i'r teulu
- Cynnal ymgyrch marchnata i hyrwyddo materion dwyieithrwydd a gwerth y Gymraeg fel sgil
  
- Cydweithio gyda Mentrau Iaith Gogledd Cymru ar gynllun traws-ffiniol yn y meysydd cyfleoedd cymunedol, uwch sgilio hyfforddiant awyr

agored a sicrhau parhad gwersi Cymraeg i oedolion mewn ardaloedd gwledig.

- Sefydlu cynllun “Cymraeg Efo’n Gilydd” i gynorthwyo dysgwyr lefelau canolradd ac uwch i’w cymhathu’n rhan o weithgarwch cymunedol cyfrwng Cymraeg
- Sefydlu Academi i ddatblygu sgiliau Cymraeg Uwch Reolwyr
- Seminar Gweithleoedd Dwyieithog
- Ymchwil i weld os oes achos busnes dros sefydlu brand Gwyliau Cymraeg

## 7. Dadansoddiad o berfformiad

### A) Ymarfer Da

- i) Gwaith hyrwyddo’r iaith Gymraeg drwy’r Gwasanaeth Ieuencid (gweler 3A) uchod
- ii) Y Swyddog Datblygu Iaith a’r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn cydweithio gyda’r Gwasanaeth Ieuencid ar Bolisi Iaith ar gyfer Clybiau Ieuencid y Sir
- iii) Prosiect Pencampwyr Iaith Gwasanaeth Hamdden (gweler 3C) uchod
- iv) Sicrhau fod dadansoddiad o ardrawiad iaith yn rhan greiddiol o’n prosesau asesu effaith cydraddoldeb (gweler 5A) uchod
- v) Sicrhau parhad Pwyllgor Iaith yn dilyn trosglwyddo i system Gabinet.
- vi) Cydweithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol, Darparu a Hamdden a’r Is-Bwyllgor Iaith i gyd-lynu ymateb i ddogfen ymgynghorol Llywodraeth Cymru (*Mwy na Geiriau*) ar wasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal

### B) Meysydd Blaenoriaeth

- i) Yn ddibynnol ar gyllid, byddwn yn comisiynu ymchwil i weld pa drefniadau sydd gan bartneriaethau neu mewn achosion o gydweithio rhwng y Cyngor ac eraill o safbwynt y Gymraeg a chydymffurfio a Chynllun Iaith Gwynedd
- ii) Monitro sgiliau ieithyddol staff
- iii) Yn dilyn cyhoeddi ffigyrau Cyfrifiad 2011, bydd Hunaniaith yn cynnal cynhadledd “Dyfodol Cymunedau Cymraeg”.
- iv) Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn cadw mewn cyswllt agos a Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg, gan ymateb yn gadarnhaol a brwdfrydig i’r gofynion newydd

## 8. Cyhoeddi Gwybodaeth

Byddwn yn cyflwyno’r Adroddiad i Bwyllgor Iaith y Cyngor ac yna i Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd y dogfennau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.